**Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg Drafft**

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yng Nghymru yn hawl i bob dysgwr o 3 i 16 oed. Mae darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ein hysgol wedi cael ei ddylunio i ystyried Maes Llafur Cytunedig yr ALl ac yn cyd-fynd a gofynion dylunio cwricwlwm Fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Mae'r polisi yn diwallu gofynion Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021.

Dylech gynnwys cyfeiriad at weledigaeth a gwerthoedd eich ysgol a sut all CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG gyfrannu tuag at hyn.

Bydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn y Cwricwlwm i Gymru yn cynnig cyfraniad unigryw at gyflawni'r **pedwar diben** i bob dysgwr. Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn paratoi ein dysgwyr yng Nghymru ar gyfer bywyd a gwaith mewn byd amrywiol sy'n newid yn sydyn, fel dinasyddion cyfrifol a gwybodus. Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn elfen orfodol o'n cwricwlwm a ddarperir ar gyfer ein holl ddysgwyr fel hawl sylfaenol.

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn eistedd gyda'r Ardal Dyniaethau ac yn ymgorffori ystod o ymagweddau disgyblaethol y gall dysgwyr eu defnyddio i ymgysylltu'n **feirniadol** gydag ystod eang o gysyniadau crefyddol a rhai nad ydynt yn grefyddol. Byddwn yn tynnu ar amrywiaeth o ddulliau megis:

- astudiaethau crefyddol
- athroniaeth
- diwinyddiaeth
- cymdeithaseg
- seicoleg
- anthropoleg

Bydd ein hysgol yn darparu perthnasau cryf rhwng Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a disgyblaethau eraill o fewn y Dyniaethau yn ogystal â meysydd eraill.

Bydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn **wrthrychol, beirniadol a phlwraliaethol**, o ran cynnwys ac addysgeg, yn unol â Chonfensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Bydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ein hysgol yn:

- adlewyrchu'r ffaith mai'r prif draddodiadau crefyddol yng Nghymru yw Cristnogaeth, wrth roi ystyriaeth i addysgu ac arferion y prif grefyddau eraill a gaiff eu cynrychioli yng Nghymru
- hefyd adlewyrchu'r ffaith fod nifer o gredoau athronyddol anghrefyddol eraill hefyd yn cael eu dilyn yng Nghymru.
  *Atodlen 2 Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021*

Bydd ein holl ddysgwyr yn cael cynnig cyfleoedd drwy Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg i ymgysylltu gyda chrefyddau gwahanol ac argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn rhai crefyddol yn eu hardal eu hunain ac yng Nghymru, yn ogystal ag yn y byd yn ehangach.

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn cyfrannu tuag at ddatblygiad ysbrydol y dysgwyr yn ei hysgol. Byddwn yn darparu cyfleoedd i'n dysgwyr:

- bod ag ymwybyddiaeth o'u hunain mewn perthynas ag eraill
- gwneud cysylltiadau gyda'r byd ehangach a naturiol
- datblygu creadigrwydd, profi synnwyr o syfrdan a rhyfeddol a meithrin chwilfrydedd
- archwilio'r cwestiynau eithaf ac ystyriaeth o ystyr a phwrpas bywyd

Byddwn hefyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad ysbrydol wrth i ni ymgysylltu gyda'n cynefin a phrofiadau sy'n digwydd mewn bywyd bob dydd o fewn ein cymunedau lleol, cenedlaethol a byd-eang.

Rydym yn diffinio Cynefin fel *"lle rydym yn teimlo ein bod yn perthyn, lle mae'r bobl a'r dirwedd o'n cwmpas yn gyfarwydd, a'r golygfeydd a'r synau'n gysurol o adnabyddadwy. Er y caiff ei gyfieithu fel 'habitat' yn aml, nid lle mewn synnwyr ffisegol neu ddaearyddol yn unig yw cynefin: lle hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol ydyw, sydd wedi siapio ac yn parhau i siapio'r gymuned sy'n byw ynddo."*

Er mwyn sicrhau bod ein cwricwlwm yn darparu dealltwriaeth eang o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg, rydym wedi dylunio ein darpariaeth o amgylch y pum Dyniaethau: Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig - Hwb (gov.cymru). Mae ein darpariaeth hefyd wedi cael ei ddylunio gan ddefnyddio 7 is-lens Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ein Maes Llafur Cytunedig a'r canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg statudol ar Hwb. Mae'r is-lensys hyn yn ein helpu ni i ddarparu'r ehangder a dyfnder priodol mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, a thrwy'r is-lensys hyn gellir gweld ac archwilio cysyniadau.

Yr is-lensys hyn yw:

- **Chwilio am ystyr a phwrpas.** Sut y mae pobl yn ymateb i gwestiynau dyfnach bywyd er mwyn deall y cyflwr dynol.
- **Y byd naturiol a phethau byw.** Sut y mae pobl yn dangos gofal a phryder a chyfrifoldeb am y byd a phrofi rhyfeddod a syndod mewn natur.
- **Hunaniaeth a pherthyn.** Beth sy'n ein gwneud ni'n pwy ydym ni fel pobl, cymunedau a dinasyddion sy'n byw mewn byd amrywiol.
- **Awdurdod a dylanwad.** Sut a pham y mae gwahanol fathau o awdurdod yn dylanwadu ar fywydau pobl.
- **Perthnasoedd a chyfrifoldeb.** Sut mae pobl yn byw gyda'i gilydd a pham y mae datblygu perthnasoedd iach mor bwysig.
- **Gwerthoedd a moeseg.** Sut a pham y mae pobl yn gwneud dewisiadau moesol a sut mae hyn yn dylanwadu ar eu gweithredoedd.
- **Taith bywyd.** Yr hyn y mae pobl yn ei brofi fel rhan o daith bywyd, a sut y cydnabyddir y profiadau hyn.

Mae'r is-lensys hyn yn ein helpu ni i ddarparu'r ehangder a dyfnder priodol mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, a thrwy'r is-lensys hyn gellir gweld ac archwilio cysyniadau. Yn Nodwch enw'r ysgol ein nod yw sicrhau dros siwrnai'r dysgwr o oedran dilëwch fel bo'n briodol 3 i 11/11 i 16, bydd ystod eang o gysyniadau yn cael eu harchwilio trwy'r lensys gwahanol hyn fel rhan o'n darpariaeth Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Mae ein cwricwlwm wedi'i gefnogi gan ddysgu ac addysgu effeithiol sy'n galluogi dysgwyr i wneud cynnydd ystyrlon mewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Rydym yn gweithredu'r pum egwyddor cynnydd o Gwricwlwm i Gymru i wneud hyn.

Y pum egwyddor cynnydd yw:

- Effeithiolrwydd cynyddol fel dysgwr
- Ehangder a dyfnder gwybodaeth cynyddol
- Dyfnhau'r ddealltwriaeth o'r syniadau a'r disgyblaethau yn y Meysydd
- Mireinio sgiliau a soffistigeiddrwydd cynyddol wrth eu defnyddio a'u cymhwyso
- Creu cysylltiadau a throsglwyddo'r dysgu i gyd-destunau newydd

Efallai eich bod eisiau cynnwys:

- Eich dull o ran dylunio cwricwlwm - disgyblaeth, amlddisgyblaeth, integreiddiad ac ati…
- Dulliau addysgeg i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yng nghyd-destun eich ysgol
- Gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau penodol gan gynnwys ymweliadau ac ymwelwyr a dysgu awyr agored ac ati…
- Trefniadau asesu sy'n effeithio Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg